RHOI'R GRYM ICHI – RHOI'R DEWIS

Kaleidoscope
est.1968

BETH YW BUVIDAL

AC A YW'N IAWN I CHI?

YCHWANEGIAD AT EIN PECYN CYMORTH TRINIAETH OPIADAU...

PIGIAD BWPRENORFFIN TYMOR HIR A RODDIR UNWAITH BOB MIS YW BUVIDAL.

Mae Kaleidoscope yn awr yn cynnig y driniaeth hon ichi, ochr yn ochr â'r holl driniaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn y gorffennol, mae'n bosibl eich bod wedi cael cynnig bwprenorffin fel tabled, er enghraifft, Subutex, Espranor neu Suboxone.

Mae Buvidal wedi cael effaith bositif ar wellhad nifer o'n defnyddwyr gwasanaethau, fodd bynnag, ni fydd yn addas i bawb. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud dewis gwybodus am y driniaeth sy'n iawn i chi, ac mae ein timau clinigol wrth law i gynnig help ac arweiniad.

Mae Buvidal fel arfer yn fwyaf effeithiol wrth drin...

- Pobl sydd ar ddos is o feddyginiaeth sy'n sefydlog ac yn gwneud yn dda, ond fod eu triniaeth yn cyfyngu ar eu bywyd bob dydd hy. ymweld â'n safleoedd, casglu meddyginiaeth o'r fferyllfa a storio meddyginiaeth.
- Pobl sy'n byw bywyd anhrefnus sy'n ei chael yn anodd cadw apwyntiadau rheolaidd, ac sydd wedi'i chael yn anodd cael sefydlogrwydd â'u triniaeth.

PETHAU I'W HYSTYRIED

01 Gall y driniaeth roi mwy o ryddid ichi, gan na fydd angen ichi fynd i'r fferyllfa i gasglu meddyginiaeth yn fwy rheoliadd

02 Mae'r driniaeth yn fwy diogel na methadon neu bwprenorffin drwy'r geg rhag ichi gymryd dôs gormodol yn ddamweiniol.

03 Mae'n bosibl y gallech deimlo'n sâl i ddechrau wrth i'ch corff addasu i'r driniaeth newydd.

Os yw eich dôs cychwynnol yn teimlo'n isel ichi, gallech gael symptomau diddyfnu ysgafn. Os bydd hyn yn digwydd, gallwch ddychwelyd i'n safle i gael dôs ychwanegol.

04 Ni fyddwch yn teimlo ewfforia wrth gymryd heroin os defnyddiwch ef gyda Buvidal.

21 O GWESTIYNAU GAN BOBL SYDD Â PHROFIAD OHONO

GYDA CHLINIGYDD ARWEINIOL KALEIDOSCOPE, DR. MOHAN DE SILVA A DR. BERN HARD

C. Dwi wedi clywed fod angen i mi gael adwaith diddyfnu cyn i mi ddechrau, sut fydd o'n teimlo, ac am faint fydd y teimlad hwnnw'n para?

A. Mae'n wir bod angen ichi gael symptomau diddyfnu ysgafn i ddechrau'r driniaeth. Nid oes angen ichi deimlo'n sâl ofnadwy, ond dylech fod yn y cam diddyfnu cynnar, pan fyddwch yn dechrau teimlo poenau, yn dylyfu gên ac yn cael croen gwyddau. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan ddefnyddiwyd dim heroin am 12-16 awr. Yn anffodus, ni fyddwch yn teimlo'n dda am weddill y dydd, ond erbyn y diwrnod wedyn, mae cleifion yn dweud eu bod fel arfer yn teimlo'n well.

C. Ar ôl fy mhigiad cyntaf, beth sy'n digwydd os wy'n dal i deimlo symptomau diddyfnu ar ôl ychydig ddyddiau?

A. Dyma pryd y byddem yn ystyried rhoi dos ychwanegol, drwy geisio gweithio allan beth ydychangen, beth ydych yn ei ddefnyddio fel arfer a pha bresgripsiwn ydych chi'n ei gymryd. Os ydych chi'n teimlo'n sâl, byddwn yn gofyn ichi ddod yn ôl cyn gynted â phosibl.
Y dos cychwynnol a argymhellir yw 16ml, ac er bod y dos hwn yn iawn i rai cleifion, mae rhai eraill wedi gorfod dechrau ar ddos wythnosol o 24mg.

- Os byddwch angen dos ychwanegol, byddem yn cynyddu'r dos i 32mg tra byddwch yn addasu, ond mae'r rhan fwyaf o gleifion yn ymateb yn dda i ddos wythnosol o 24mg.

- Gall rhai cleifion fynd yn syth ar feddyginiaeth fisol, yn enwedig os ydynt yn newid o ddos bwprenorffin dyddiol sefydlog.

- Nid oes ond angen dosys ychwanegol fel arfer pan fo'r claf yn dechrau cael symptomau diddyfnu. Yn ein profiad ni, anaml y mae angen inni ddefnyddio dosys ychwanegol, gan ein bod yn cychwyn y driniaeth â'r dos mwyaf priodol.

- Cofiwch, os ydych chi'n teimlo'n sâl, ni fydd ceisio ychwanegu heroin yn cael yr effaith ddymunol.

- Y cleifion hawsaf i'w rhoi ar Buvidal yw'r rheini sydd eisoes yn cymryd Bwprenorffin drwy'r geg, neu bobl nad ydynt ar ddim triniaeth ac yn defnyddio heroin yn ddyddiol. Os yw claf eisiau dod oddi ar methadon a chymryd Buvidal, byddwn yn ymdrechu i roi iddynt y dos cywir ar ôl inni ei asesu.

C. Beth sy'n digwydd os defnyddiaf gyffuriau yn ogystal â Buvidal? Er enghraifft opiadau neu gocên?

A. Os penderfynwch gymryd opiadau yn ogystal â Buvidal, nid ydych yn debygol o deimlo effaith yr opiadau rydych yn eu cymryd, felly byddwch i bob pwrpas yn gwastraffu eich arian.

- Os byddwch yn cymryd cocên, ni fydd y Buvidal yn ymyrryd â hyn a byddwch yn teimlo effaith y cocên, fodd bynnag, ni fyddwch yn gallu defnyddio opiadau i ddod i lawr oddi ar effaith y cocên.

- Byddai eich sgil-effeithiau yn debyg i'r rheini y byddech yn eu teimlo wrth ddefnyddio cyffuriau eraill ar ben bwprenorffin drwy'r geg.

C. Pe byddwn yn dechrau'r driniaeth, ond wedyn eisiau defnyddio opiadau hefyd o bryd i'w gilydd, a allwn ni eu defnyddio a pheidio â chael symptomau diddyfnu?

A. Fel arfer, ni fyddwch yn cael symptomau diddyfnu, fodd bynnag mae'n dibynnu pryd rydych chi'n penderfynu eu defnyddio. Os defnyddiwch opiadau pan fydd eich corff yn dal i addasu i'r driniaeth, mae'n bosibl y cewch rhyw fath o symptom diddyfnu ysgafn.

Ar ôl ichi lefelu allan ar y pigiad, rydych chi'n annhebygol o deimlo symptomau diddyfnu os defnyddiwch opiadau. Yr adborth gan gleifion fu bod prynu heroin yn wastraff arian – wnewch chi ddim cael y teimlad rydych chi'n chwilio amdano.

C. Sut mae titradu yn gweithio?

A. Mae titradu yn gweithio ar y sail eich bod naill ai ar bresgripsiwn wythnosol neu fisol.

Ar bresgripsiwn wythnosol, mae yna nifer o ddosau ar gael. I gadw pethau'n syml, mae gennym gam titradu syml, sef dechrau eich triniaeth ar y dos titradu canolig sy'n 24mg o Buvidal.

Os yw'r dos hwnnw'n gweithio i chi, byddwch yn cael y dos canolig o'r pigiad misol, sef 96mg. Os, am unrhyw reswm, pan gewch y dos 24mg eich bod yn teimlo nad yw'n eich cynnal, fe allwch gael dos ychwanegol, ond anaml iawn rydyn ni'n gorfod gwneud hyn.

Os oes angen inni ychwanegu at eich dos pan fyddwch ar 24mg, fe wnawn wedyn eich rhoi ar y pigiad misol o 128mg. Dyma'r dos uchaf.



Dos Misol Uchaf **128mg**
Dos Misol Arferol **96mg**
Dos Wythnosol Uchaf **32mg**
Dos Wythnosol Arferol **24mg**
Dos Wythnosol Isel **16mg**
Dosys ychwanegol **8mg**

C. Beth fyddai angen i mi wneud pe byddwn eisiau symud oddi wrth driniaeth methadon i Buvidal?

A. Os ydych ar fethadon ac eisiau symud i Buvidal, byddai angen inni yn gyntaf gael eich dos methadon i lawr i 30mg. Yna, mae angen ichi fod wedi bod oddi ar 30mg am o leiaf 24 awr cyn cael eich pigiad Buvidal cyntaf. Felly, dywedwch eich bod ar 50mg, byddech yn cael 10mg yn llai bob tri diwrnod. Os ydy hyn yn rhy gyflym ichi, gallwn ailedrych ar bethau ac arafu'r broses os oes angen.

Os cewch eich dos 30mg cyntaf ar ddydd Sul, fe gewch eich pigiad Buvidal ar y dydd Mawrth, gan adael dydd Llun i fod yn fwlch 24 awr pan na fyddwch yn cael dim byd.

Yn yr apwyntiad ar y dydd Mawrth, byddem yn rhoi bwprenorffin drwy'r geg ichi, fel Espranor neu Suboxone, rhag ofn ichi gael adwaith alergaidd i bwprenorffin. Os na chewch ddim sgil-effeithiau, gallwn roi pigiad Buvidal ichi mewn hanner awr. Cewch asesiad corfforol cyn ichi gael y pigiad Buvidal, er mwyn inni allu bod yn sicr eich bod yn dangos arwyddion diddyfnu opiadau ysgafn i gymedrol.

C. Am faint mae'n rhaid i mi fod ar Suboxone cyn symud i Buvidal?

A. Nid oes raid ichi fod ar Suboxone, na bwprenorffin o fath arall drwy'r geg, o gwbl i fynd ar Buvidal, fodd bynnag, os ydych ar bwprenorffin drwy'r geg, mae'n gwneud y broses yn haws na phe byddech yn symud oddi wrth driniaeth methadon.

C. A gaf fi yfed alcohol tra byddaf yn cael Buvidal?

A. Dydy ychydig bach o alcohol (3 uned neu lai) ddim yn debygol o wneud niwed, fodd bynnag, nid yw Buvidal yn addas i bobl sy'n yfed llawer iawn o alcohol.

Yn debyg i Bwprenorffin drwy'r geg, ni chaiff ei roi fel arfer i bobl sydd â phroblemau'n ymwneud ag alcohol oherwydd eich bod angen i'ch afu/iau allu gweithredu'n eithaf da i fynd ymlaen â'r driniaeth hon. Pe byddem yn amau bod gennych broblemau afu/iau, os ydych wedi cael diagnosis o'r clefyd melyn, neu wedi cael eich derbyn i'r ysbyty â phroblemau afu/iau, ni fyddem o anghenraid yn eich rhoi ar y driniaeth hon.

C. A oes perygl i rywun gael gorddos os defnyddir opiadau neu alcohol hefyd?

A. A. Fel Bwprenorffin drwy'r geg, mae Buvidal yn ddiogel iawn rhag gorddos opiadau.

Mae Buvidal yn bendant yn fwy diogel na methadon, ac yn fwy diogel na bwprenorffin drwy'r geg, fodd bynnag, ni wnaiff eich gwarchod rhag cael gorddos ar bob cyfrif.

Mae'n helpu pobl a allai gymryd gorddos yn ddamweiniol, ond ni allwn ddweud ag unrhyw sicrwydd beth fyddai'n digwydd os oes rhywun yn benderfynol o weld faint a allai gymryd cyn iddo gael gorddos.

O safbwynt alcohol, yn anffodus, ni fydd Buvidal yn cael dim effaith mewn senario gorddos alcohol. Mae hyn yn golygu, os ydych yn yfed gormod, eich bod yn dal mewn perygl o dananadlu a mygu o bosibl.

C. Os byddaf yn cymryd gorddos, beth fyddai effaith cael pigiad o Naloxone?

A. Byddai effaith Naloxone yr un fath â phe byddech ar Bwprenorffin.

Byddai'r Naloxone yn mynd â'r cyffur gorddos ymaith, ac yna byddai'r Buvidal yn dechrau gweithio eto. Felly, ar ôl ychydig oriau, byddech yn dechrau teimlo'n well eto.

Kaleidoscope
est.1968

C. Beth sy'n digwydd os byddaf yn methu fy mhigiad?

A. Gyda phigiadau Buvidal wythnosol, mae gennych gyfnod gras o ddau ddiwrnod, felly os ydych yn methu â chyrraedd eich apwyntiad, ni fydd cael eich pigiad ddau ddiwrnod y naill ochr i'r apwyntiad hwnnw yn cael effaith ar eich triniaeth. Ceir cyfnod gras o saith diwrnod y naill ochr i'r pigiad misol.

Mae'n bwysig cofio er hynny, er mwyn i chi gael y canlyniadau gorau â'r driniaeth hon, fod wir angen i chi gario ymlaen â'ch pigiad misol. Y peth gwych am Buvidal yw ein bod yn gweld lefelau ymrwymiad llawer gwell nag a welwn gyda methadon fel arfer, ac mae hynny'n aml yn arwain at well canlyniadau i'r cleifion.

C. Lle byddwn i'n cael y driniaeth?

A. Byddech yn cael y driniaeth yn un o safleoedd Kaleidoscope, lle bydd staff clinigol hyfforddedig yn rhoi'r pigiad yn ddiogel.

Fodd bynnag, os na fyddwch yn teimlo'n dda iawn, er enghraifft, neu'n ynysu yn ystod cyfnod COVID-19, gallem ystyried ymweld â chi gartref. Er nad ydym fel arfer yn cynnig ymweliadau cartref, rydym yn barod i asesu hyn fesul achos.

C. Beth pe byddwn ar wyliau ac yn methu fy awyren adref, a phe byddwn yn methu â dod yn ôl ar gyfer fy mhigiad na chael Buvidal yn lle'r oeddwn, pa mor ddrwg ydy'r symptomau diddyfnu, ac a fyddai'n para'n hirach na methadon?

A. Byddai'r symptomau diddyfnu'n llawer ysgafnach na methadon. Byddech yn hytrach yn teimlo'r Buvidal yn eich system yn lleihau'n raddol iawn. Fel cyffur hirdymor, nid yw'n diflannu o'ch corff a bydd yn dal i wneud ei waith.

- Ar gyfer y pigiad misol, ceir byffer o oddeutu saith diwrnod, felly oni bai eich bod ym mhen draw eithaf yr amser pan ddylech gael eich dos nesaf, nid ydych yn debygol o deimlo unrhyw symptomau diddyfnu. Ar ôl saith diwrnod bydd y Buvidal yn eich system yn diflannu'n raddol.

- Mae cleifion a oedd yn cael y driniaeth hon mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, ar ôl penderfynu nad oeddent eisiau'r pigiad mwyach, yn dweud na wnaethant deimlo dim symptomau na sgil-effeithiau tan 45 diwrnod yn ddiweddarach, ac erbyn hynny roeddent wedi cael eu dadwenwyno'n araf ac nad oedd angen iddynt gymryd dim.

- Y cleifion hawsaf i'w symud i Buvidal yw rhai sydd eisoes ar Bwprenorffin. Os yw claf eisiau dod oddi ar fethadon a chymryd Buvidal, byddwn yn ymdrechu i roi iddynt y dos cywir ar ôl inni ei asesu.

C. Beth pe byddwn yn cael damwain ac angen opiad lladd poen, beth ellid ei ddefnyddio yn lle opiad?

A. Nid cyffur lladd poen yw Buvidal, fodd bynnag, mae'n eithaf da am leddfu poen.

Bydd Buvidal yn ceisio blocio'r morffin, felly i fod yn fwyaf effeithiol, byddai angen i'r morffin gael ei roi mewn dosys uwch.

Nid yw hyn ond yn broblem pe byddai claf angen drip morffin hirdymor.

C. Pe byddwn yn cael trawiad ar y galon ac angen diamorffin, beth fyddai'n digwydd?

A. Gallai'r Buvidal wrthweithio'r diamorffin, felly efallai y byddai angen i chi gael dos uwch o ddiamorffin er mwyn i'r cyffur fod yn effeithiol. Mater i'r clinigydd sy'n gweinyddu'r diamorffin fydd asesu'r risg briodol. Bydd pob claf sy'n cael Buvidal yn cael cerdyn sy'n egluro eu triniaeth, felly, pe byddai sefyllfa o'r fath yn codi, byddai'r staff clinigol yn gwybod eich bod ar gyffur gwrthweithio.

C. A ellir gwyrdroi'r pigiad pe byddai gennyf alergedd iddo?

A. Na, nid oes posibl ei wyrdroi. Am y rheswm hwn, byddwn yn rhoi bwprenorffin drwy'r geg i chi cyn gweinyddu eich pigiad Buvidal cyntaf. Os na fyddwch yn dangos symptomau adweithiol, fe gewch eich pigiad cyntaf hanner awr yn unig ar ôl y bwprenorffin drwy'r geg.

C. A fydd gennyf lwmp dan y croen?

A. Na fydd fel arfer, ond ar ôl llawer o bigiadau mae'n bosibl y byddwch yn sylwi, wrth redeg eich bysedd dros eich croen, fod y man lle gawsoch eich pigo'r tro blaen yn teimlo ychydig yn wahanol. Nid yw hwn yn barhaol fodd bynnag, ac mae cleifion wedi sylwi, ar ôl wythnosau, fod y teimlad yn diflannu'n raddol.

C. Beth os wyf yn feichiog, neu'n syrthio'n feichiog pan wyf arno?

A. A. Mae Buvidal wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio gan ferched beichiog gan y Comisiwn Ewropeaidd os yw'r manteision yn fwy na'r risgiau. Byddem yn defnyddio cynhyrchion wythnosol neu fisol os yw'r clinigydd unigol yn penderfynu gwneud hynny, a byddech chithau wrth gwrs yn rhoi gwybodaeth ac yn cyfranogi yn y penderfyniad. Os ydych eisoes yn cymryd y pigiad Buvidal ac yn syrthio'n feichiog, byddem yn parhau â'ch triniaeth ac yn trafod â chi a ddylem eich symud i bwprenorffin drwy'r geg ar ryw gam yn eich beichiogrwydd.

C. A fyddai fy nhriniaeth yn parhau yn y carchar pe byddwn yn cael dedfryd?

A. Mae carchardai yn y Deyrnas Unedig yn edrych ar ddefnyddio Buvidal ar hyn o bryd, felly ar ryw adeg, fe allant barhau â'r driniaeth hon yn y carchar, pe byddech yn cael dedfryd fer er enghraifft. Fodd bynnag, os nad yw'r carchar yn cynnig Buvidal, byddech yn symud at yr un dos o bwprenorffin drwy'r geg.

C. A fydd Buvidal yn atal y teimladau endorffin naturiol a geir wrth gael rhyw, gwneud ymarfer corff ac ati?

A. Na, ni fydd y Buvidal yn cael dim effaith ar endorffinau naturiol. Ni fydd Buvidal yn eu cynyddu na'u lleihau.

C. Pe byddwn wedi bod ar Buvidal am flwyddyn ac eisiau dod oddi arno, beth yw'r broses?

A. Gallech ddechrau lleihau dos y pigiad misol, felly os ydych ar bigiad misol o 96mg, gallech ddod lawr i ddos misol o 64mg. Gallem hefyd ystyried ymestyn y cyfnodau rhwng eich pigiadau misol, neu gallem eich rhoi ar bwprenorffin drwy'r geg, ac yna leihau'r dosys. Pan ddaw'r amser, mae yna sawl ffordd o wneud hyn, a gallwn drafod hyn gyda'n gilydd a phenderfynu ar ateb sydd fwyaf addas i'ch anghenion chi.